

# > Cynllun gweithredu

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cynnwys y prif flaenoriaethau a nodwyd gan y Bartneriaeth. Byddwn yn ymdrechu yn ein gwaith i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Yr Wyddfa a'r ardaloedd o'i chwmpas. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio dull hirdymor, integredig, cydlynol, ar y cyd ac ataliol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd rhagor o weithgareddau a nodau'n cael eu cynnwys yn y dogfennau darparu a fydd yn cael eu paratoi gan y Bartneriaeth.  Byddwn yn fwy na bodlon rhannu'r dogfennau hyn, mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech chi gael copi.

Rydym ni wedi cynnal sawl gweithdy gyda phartneriaid i:

- fapio'r gwaith presennol,
- nodi'r bylchau,
- dyrannu swyddogaethau i bartneriaid yn y gwaith,
- datblygu nodau y tymor byr a'r tymor hir,
- a blaenoriaethu'r nodau hynny.



# 1.

# Gweithgareddau, Anturiaethau ac Addysg Awyr Agored

Parchu'r mynydd, pobl, cymunedau a diwylliant yr ardal, a thwristiaeth



## Ble rydym ni nawr?

- Cynnydd o 13% mewn gwariant ar hamdden o'r flwyddyn flaenorol
- Mae digwyddiadau mawr a drefnir yn cyfrannu'n gynyddol at yr economi leol ond gallant fod yn her o safbwynt diogelu'r amgylchedd ac i bobl sy'n byw yn yr ardal
- Mae angen mwy o addysg i sicrhau bod pawb yn ddiogel a bod pawb yn parchu'r cod cefn gwlad
- 50% o Gylchdaith Yr Wyddfa wedi'i chwblhau
- Mae Wardeiniaid APCE yn cynnig cyngor ar faterion mynediad

## Ble rydym ni eisiau bod erbyn 2030?

- Mae Cylchdaith Yr Wyddfa'n dygymod yn dda efo'r cynnydd yn y defnydd ohoni gan drigolion ac ymwelwyr, ac mae'n parhau i ddatblygu, gyda darnau Nant Peris i Ben y Pass a Lon Gwynant wedi eu cyflawni
- Mae llwybrau'r ucheldir wedi eu cynnal yn dda wedi eu dylunio i ymdopi a newid hinsawdd ac yn gweddu i'r tirwedd, gyda'r gwaith wedi'i ariannu'n dda
- Mae cydnabyddiaeth ehangach o fanteision digwyddiadau a drefnir, cyfathrebu mwy effeithiol gyda chymunedau, ac arfer gorau ac arweiniad yn cael ei ddarparu i drefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau awyr agored.
- Bod addysg ynghylch y mynydd a beth sy'n ei wneud mor arbennig ar gael i bawb
- Bod cyfoeth ac amrywiaeth o weithgareddau a gwybodaeth yn annog pobl i fwynhau'r Wyddfa i wella eu hiechyd a'u lles

## Beth yw'r effaith?

- Profiad gwell o ddigwyddiadau ac antur i bawb, llai o effaith ar yr amgylchedd ac ar cymunedau leol a buddion cynyddol i'r economi

## Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf

- Cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid yn natblygu Cylchdaith Yr Wyddfa a blaenoriaethu'r rhannau i'w datblygu
- Cyngor Gwynedd, CBS Conwy ynghyd ag APCE, Cyfoeth Naturiol Cymru, a grwpiau cymunedol sefydledig i gydweithio i wella cyfathrebu a chydlynu am ddigwyddiadau, a datblygu adnodd ganolig ar gyfer trefnwyr digwyddiadau
- Datblygu Cynlluniau Wardeiniaid Gwirfoddol a Cheidwaid Ifanc i annog wardeiniaid ifanc a gwirfoddolwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth ynghylch y Cod Cefn Gwlad, sgiliau mynydda a perchnogaeth cyfrifol ar gwn
- Datblygu cyfleoedd iechyd a lles drwy'r grŵp "Cael Gogledd Cymru i Symud"
- Yn ôl y gofyn, trwsio a gwella llwybrau'r ucheldir i ansawdd da ac i safon tirwedd sensitif
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a dysgwyr sy'n gweithio yn y sectorau awyr agored a gwirfoddol, ac annog a chefnogi'r defnydd a dathlu'r Gymraeg
- Pwyntiau ailgylchu ger bob man mynediad ac annog defnydd o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, ar y cyd gyda chynllun cymhelliant i gael gwared â sbwriel o'r mynydd drwy grŵp Wyddfa Lân.

## 2. Seilwaith a Gwasanaethau Ymwelwyr

Seilwaith ardderchog a gwasanaethau cydlynedig



### Ble rydym ni nawr?

- Mae Sherpa’r Wyddfa yn teithio o amgylch godre'r Wyddfa gan gysylltu â phob un o’r chwe phrif lwybr troed â’r pentrefi cyfagos
- Mae’r Sherpa'n rhedeg bob hanner awr yn ystod misoedd yr haf ar ochr ogleddol y mynydd ond yn llawer llai aml ar yr ochr ddeheuol
- Mae gwaith wedi'i gwblhau ar sawl rhan o Gylchdaith Yr Wyddfa
- Mae yna gryn bwysau ar barcio yn y tymor brig er gwaethaf buddsoddiad o £3.6 miliwn ar wella parcio, cludiant a llwybrau

### Ble rydym ni eisiau bod erbyn 2030?

- Byddai gwasanaeth Bysiau Sherpa yn cynnwys:
  - Dull partneriaeth o reoli'r problemau paricio o gwmpas Yr Wyddfa, a fydd yn cynnwys gwasanaeth bws sydd yn cyfarfod anghenion y defnyddwyr: wedi'i hysbysebu'n dda, sy'n cysylltu'n effeithiol gyda'r meysydd parcio o gwmpas Yr Wyddfa, ac sy'n fforddiadwy gan wneud Parcio a Theithio yn ddewis deniadol. Bydd yr amserlenni yn well ac yn fwy hyblyg, a bydd yn gweithredu'n amlach gyda mwy o fysiau yn ystod oriau brig  (yn enwedig rhwng Betws-y-Coed, Beddgelert a Phen-y-Pass)
  - Yn cyrraedd yr holl lwybrau o amgylch Yr Wyddfa
  - Gwella adnoddau parcio a theithio gan gynnwys opsiynau gorlifo tymor brig
- Meysydd parcio ar gyfer pawb, wedi’u cydlynu ac yn cael eu hysbysebu’n dda gydag arwyddion a marciau ffordd clir.
- Adnoddau defnyddwyr yn bodloni ac yn rhagori ar ddisgwyliadau ac anghenion ymwelwyr

### Beth yw’r effaith?

- Gwell profiad i defnyddwyr
- Mwy o bobl leol yn mwynhau’r Wyddfa
- Talu sylw i broblemau diogelwch sy’n cael eu hachosi gan barcio ar y ffordd


### Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd yn cydlynu arolwg o anghenion defnyddwyr gyda busnesau twristiaeth yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch cludiant a pharcio. Defnyddio canlyniadau i adolygu a gwella’r gwasanaeth Sherpa
- Busnesau i annog ymwelwyr i ddefnyddio’r Sherpa
- Gweithio’n agosach gyda chwmnïau tacsis i gyflwyno gwasanaeth sy’n cyd-fynd â gwasanaeth y Sherpa
- Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chynghorau Gwynedd a Chonwy i gydweithio a sicrhau digon o fannau parcio sy'n cael eu cydlynu a’u hysbysebu'n dda
- Astudiaeth i wella cyfleusterau ymwelwyr ym Mhen-y-Pass
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio technoleg newydd ar gyfer gwella cysylltedd ffôn / wifi.

# 3.

## Yr Economi Wledig a Chymunedau'r Ardal

Economi leol iach a ffyniannus sy'n gwasanaethu trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd



### Ble rydym ni nawr?

- Amcangyfrifir bod twristiaeth Yr Wyddfa yn cyfrannu £69 miliwn o fudd economaidd bob blwyddyn
- Mae gwaith llawn amser yn brin a chyflogau'n fychan yn y Parc
- Y cyflogwyr mwyaf yw iechyd a gwaith cymdeithasol, cyfanwerthu a manwerthu, addysg a gwasanaethau bwyd a llety
- Yn yr ardal hon y mae un o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

### Ble rydym ni eisiau bod erbyn 2030?

- Gwella cysylltiadau a rhwydweithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr tir, busnesau a chymunedau lleol a'r Bartneriaeth
- Mae brand newydd ar gyfer cynnyrch lleol (gan gynnwys bwyd, diod a chrefftau) wedi'i sefydlu a'i hyrwyddo'n dda.
- Busnesau a siopau lleol yn defnyddio ac yn hyrwyddo cynnyrch lleol yn helaeth, cadwyni cyflenwi

### Beth yw'r effaith?

- Cyfuno gwasanaethau'n well a mwy o gyfranogiad gan bobl leol
- Cynnydd yng ngwerth cynnyrch yr ardal a'r galw amdano
- Economi'r ardal yn well er budd pawb

### Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf

- Swyddog Partneriaeth i helpu, i arwain ar brosiectau dwyieithog ac i gyfathrebu a phobl yn yr ardal ar ran y Bartneriaeth
- Cyflogi Swyddog Partneriaeth
- Y Swyddog Partneriaeth i ymestyn y gwaith gyda thirfeddianwyr, rheolwyr tir a busnesau'r ardal
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu brand lleol ac i annog defnyddio a hyrwyddo cynnyrch lleol
- Cefnogi a hybu cyfleoedd ar gyfer swyddi dwyieithog o safon uchel yn y sector gwasanaethu.

# 4. Gofalu am Yr Wyddfa

## Amgylchedd iach a ffyniannus



### Ble rydym ni nawr?

- 60% o'r Wyddfa yn cael ei gwarchod o dan dynodiad statudol
- Yr Wyddfa oedd yr ail Warchodfa Natur Genedlaethol i gael ei dynodi yng Nghymru
- Mae'r Warchodfa Natur Genedlaethol yn cefnogi dros 20 o nodweddion cadwraeth a warchodir, gan gynnwys nifer o rywogaethau prin a chynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol
- 40km² o Ardal Cadwraeth Arbennig ac o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- 16.7km2 o Warchodfa Natur Cenedlaethol

### Ble rydym ni eisiau bod erbyn 2030?

- Ysbrydoli pob ymwelydd ynghylch gwerth naturiol arbennig Yr Wyddfa
- Mae'r Wyddfa yn rhan allweddol o gynllun llwyddianus Rhodd Eryri ac mae Partneriaid yn cydweithio yn agos â'r prosiect
- Bod y dehongliad a'r wybodaeth a gyflwynir drwy'r ardal yn gyson ynghylch rheoli tir ac ynghylch nodweddion naturiol unigryw'r Wyddfa
- Rhywogaethau ymledol yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Mae'r holl nodweddion cadwraeth a warchodir yn cael eu cadw mewn cyflwr ffafriol, yn awr ac yn y dyfodol rhagweladwy
- Mae rheolwyr tir wedi eu cefnogi'n ddigonol yn eu swyddogaeth o rheoli'r amgylchedd

### Beth yw'r effaith?

- Amddiffyn amgylchedd naturiol gwerthfawr Yr Wyddfa sy'n golygu bod ein gweledigaeth yn cael ei gwireddu.

### Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf

- Gweithredu Cynllun Rhodd Ymwelwyr a'i hyrwyddo ymhellach i gynnwys cysylltu â digwyddiadau awyr agored, busnesau ac atyniadau lleol
- Datblygu trefniadau i'r gymuned leol fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch sut i neilltuo arian a godir trwy roddion gan ymwelwyr
- Gosod gwell byrddau gwybodaeth (mewn mannau addas), sgriniau rhyngweithiol, datblygu gwefan a datblygu nwyddau a dulliau eraill o gyfathrebu, megis taflenni, llythyrau ac e-bost i wella'r wybodaeth am amgylchedd naturiol Yr Wyddfa, yr ymgysylltiad â'r amgylchedd a'r ddealltwriaeth ohono
- Trafod, datblygu, cefnogi a hyrwyddo prosiectau cadwraeth ac awyr-dywyll arloesol ac effeithiol, a chyfleoedd ymchwil ar y cyd gan ddefnyddio gwirfoddolwyr i ehangu cynhwysedd.
- Hwyluso a chefnogi unrhyw dirfeddianwyr sydd am dreialu cynlluniau gwasanaethau ecosystem ar Yr Wyddfa.
- Sicrhau bod mecanweithiau yn eu lle i gasglu data ar gyfer adran 'Dangosyddion Llwyddiant' y Cynllun.

# 5. Gwybodaeth i Ymwelwyr a Thwristiaeth

Profiad cynaliadwy o'r radd flaenaf yn y byd i ymwelwyr



## Ble rydym ni nawr?

- 582,000 o ymwelwyr â'r Wyddfa bob blwyddyn
- Amcangyfrifir bod 1.54 miliwn o ddyddiau ymwelwyr yn cael eu treulio ar Yr Wyddfa ac o'i chwmpas bob blwyddyn
- Amcangyfrifir bod twristiaeth yn cyfrannu £69m y flwyddyn i economi'r ardal

## Ble rydym ni eisiau bod erbyn 2030?

- Bydd ein tymor ymwelwyr wedi'i ymestyn gydag ymwelwyr yn cael eu hannog i ymweld yn ystod y tymor tawel yn hytrach nag ar yr adegau prysur
- Bydd gwybodaeth gyson ar gael ar bob llwyfan
- Bydd gwell gwybodaeth ar gael ynghylch beth arall sydd i'w wneud a sut i wneud hynny
- Bydd iaith gymraeg a diwylliant yn cael eu dathlu a busnesau'r ardal yn cael eu cefnogi ym mhob un o'n gweithgareddau
- Busnesau lleol yn genhadon ar gyfer gwybodaeth a chyngor o ansawdd, cynnyrch lleol ac maent yn helpu i greu ymdeimlad o le

## Beth yw'r effaith?

- Mwy o swyddi trwy'r flwyddyn a gwell profiadau i ymwelwyr

## Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf

- Datblygu pecyn offer i gyfuno ein negeseuon ynglyn a parch, diogelwch, campio gwyllt, iaith, diwylliant a threftadaeth. Integreiddio ar draws gwefannau, gwybodaeth leol a chyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys fan gwybodaeth syudol i'w lleoli mewn mannau strategol yn yr ardal.
- Creu tudalen we yn benodol i'r Wyddfa, un adnodd gwybodaeth yn cael ei rannu'n gyson ym mhob man gan bob partner. Bydd y pwynt gwybodaeth canolog yn bwynt cyswllt i'r Canolfannau Croeso a pwyntiau gwybodaeth a bydd amrywiaeth eang o bobl yn cael eu hannog i'w ddefnyddio
- Archwilio hyfywedd datblygu ap Yr Wyddfa o safon uchel a'i hyrwyddo'n eang
- Paratoi cynllun cyfathrebu ar gyfer Partneriaid Yr Wyddfa
- Gweithio gyda Grŵpiau Rheolaeth Cyrchfan Conwy a Gwynedd ar strategaeth twristiaeth gydol flwyddyn e.e. cyfeirio at 'tymor yr haf a'r gaeaf' yn hytrach nag at dymor tawel, a hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y tymor estynedig
- Cefnogi creu 'canolfan cerdded y gaeaf', gwyliau bwyd, ffeiriau, marchnadoedd Nadolig, gwyliau cerdded
- Gweithio gyda phartneriaid megis Cymdeithasau Twristiaeth, Plas y Brenin, digwyddiadau Cymdeithas Eryri. Annog a chefnogi digwyddiadau a gweithgareddau i redeg yn ddwyiethog
- Annog a chefnogi digwyddiadau a gweithgareddau trefniedig dwyieithog
- Datblygu cynllun cenhadon



# Mae angen i ni roi ychydig bach yn ôl “Rhodd Eryri”

Mae cynllun treialu Rhodd Eryri wedi bod yn un o lwyddiannau cynnar Partneriaeth Yr Wyddfa. Dangosodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gwreiddiol bod angen a dyhead gwirioneddol am gynllun codi arian yn yr ardal. Mae pobl sy’n caru’r ardal, gan gynnwys ymwelwyr, trigolion, busnesau a gwyddonwyr, wedi sylweddoli ers talwm bod angen iddyn nhw wneud rhywbeth i sicrhau bod yr ardal yn cadw ei harddwch, ei hamrywiaeth naturiol a’i swyn unigryw.

Mae’r cynnydd parhaus ym mhoblogrwydd yr ardal a’r pwysau anorfod y mae nifer cynyddol o ymwelwyr yn ei osod arni yn golygu bod yr ardal mewn mwy o berygl nag erioed o ddioddef oherwydd ei llwyddiant ei hun.

Drwy’r ymgynghoriad, cynorthwyodd rhanddeiliaid i nodi tri phrosiect allweddol i’w cefnogi yn ardal Yr Wyddfa er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl:

- cynnal a chadw llwybrau’r mynydd;
- datblygu’r iseldir a dyffrynnoedd, Llwybr Cylchol Yr Wyddfa;
- pobl ifanc yn datblygu sgiliau traddodiadol.

Mae holl fusnesau’r ardal wedi bod yn cydweithio i godi arian ar gyfer y prosiectau hyn gyda chymorth Partneriaeth Yr Wyddfa ac Arloesi Gwynedd Wledig, sy’n rhedeg y cynllun.

Mae cyfrannu ychydig bach o arian yn rhwydd iawn, ac mae’n deimlad braf gwybod eich bod yn helpu i achub a gwarchod man mor bwysig. Ewch i www.snowdoniagiving.wales i ganfod sut y gallwch chi helpu.

SNOWDONIA GIVING
RHODD ERYRI